www.furthermaths.org.uk/wales

Adroddiad Achos	Ysgol Maesydderwen
Cyfeiriad	Tudor St, Ystradgynlais, Abertawe SA9 1AP
Nifer myfyrwyr 16 – 18 oed 2014	65

Adroddiad Achos:

Rhiant – Mam myfyriwr sy'n astudio Mathemateg Bellach Safon Uwch

Cwrs Mathemateg Bellach:

Nid oeddwn wedi clywed am fathemateg bellach nes penderfynodd fy merch wneud cais i Gaergrawnt i astudio Mathemateg. Daeth yn amlwg hebddo ni fyddai'n hyd yn oed yn cael ei galw am gyfweliad, felly dechreuodd y cwest.

Nid yw ein ysgol yn cynnig mathemateg pellach ac FMSP oedd yr unig opsiwn. Cymerodd llawer o berswâd ond yn y diwedd cytunodd yr ysgol bod Mathemateg Bellach yn angenrheidiol ac fe'i drefnwyd drwy FMSP yng Nghymru.

Manteision Astudio Mathemateg Bellach?

Cafwyd hyfforddiant wyneb yn wyneb ac ar-lein ac mae wedi bod yn wych gyda fy merch yn pasio'r arholiad modiwlaidd cyntaf gyda A.

Mae hi wedi mwynhau'r hyfforddiant yn fawr ac mae'r ffaith ei bod wedi gorfod gwneud llawer o waith yn annibynnol wedi bod yn baratoad da iawn ar gyfer astudio annibynnol yn y Brifysgol. Mae'r astudiaeth Mathemateg Bellach hefyd wedi cadarnhau cymaint mae hi'n mwynhau mathemateg a'i fod wedi bod y dewis cywir ar ei chyfer yn y Brifysgol. Byddai unrhyw blentyn sydd â diddordeb mewn mathemateg neu bynciau sy'n seiliedig ar fathemateg yn elwa'n fawr o gymryd Mathemateg Bellach gan ei fod yn ehangu eu gwybodaeth ac yn rhoi dechrau da iawn ar gyfer unrhyw astudiaeth pellach.

Bu staff yr FMSP yn gymorth mawr, yn enwedig i'r ysgol, sydd wedi cael trafferth deall y materion ariannu, ac maent wedi esbonio y broses yn amyneddgar iddynt ar nifer o achlysuron.

Byddwn yn dweud wrth bob rhiant i beidio â bod ofn gofyn am fathemateg pellach ar gyfer eich plentyn dim ond oherwydd bod yr ysgol yn anghyfarwydd â'r broses. Dyfalbarhewch ac fe gawn nhw ef yn y pen draw!! Diolch i hyfforddiant gan y FMSP mae fy merch bellach yn ddeiliad cynnig ar gyfer mathemateg yng Nghaergrawnt.